# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 16 IONAWR 2019 AM 10.30 A.M.

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau) ac R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol) ac S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Gwelliannau Busnes Dros Dro).

Hefyd yn Bresennol:

R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), J. Carpenter (Rheolwr Cyllid (Refeniw)), T. McMahon (Rheolwr Adfywio Cymunedol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), D. Lucas (Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Datblygu), I. Martin (Swyddog Cynllunio at Argyfwng a Chydnerthu) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb gan R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro)

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET - 12 RHAGFYR 2018

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018 (rhifau cofnod. 1 - 12) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**MATERION OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**4. UWCHGYNLLUN DRAFFT YSTRAD MYNACH**

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i Uwchgynllun Drafft Ystrad Mynach fel sail ar gyfer ymarferiad ymgynghori cyhoeddus yn dechrau ar 28 Ionawr 2019 hyd at 8 Mawrth 2019. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 11 Rhagfyr 2018. Argymhellodd y Pwyllgor Craffu yn unfrydol i'r Cabinet y dylid cymeradwyo Uwchgynllun Drafft Ystrad Mynach.

Cynghorwyd y Cabinet, er mwyn elwa o'r newid trawsnewidiol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ehangach gyda buddsoddiad y Fargen Ddinesig, Tasglu y Cymoedd a ffrydiau ariannu pellach, bod angen nodi'r blaenoriaethau strategol ar gyfer adfywio a gwella Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae hyn yn cynnwys nodi cyfleoedd a fydd yn ei gwneud hi'n fwy ffyniannus, iachach, gwydn a chyfartal, gan osod blaenoriaethau sy'n alinio a gwella gwaith rhanbarthol ac y gellir eu gwireddu'n rhwydd.

Uwchgynllun Drafft Ystrad Mynach yw'r gyfres nesaf o Uwchgynlluniau sy'n cael eu paratoi o dan y strategaeth adfywio gyffredinol ar gyfer y fwrdeistref sirol 'Sylfaen ar gyfer Llwyddiant', yn dilyn ymlaen o Uwchgynllun Basn Caerffili a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2018. Mae'r Uwchgynllun yn rhan o'r cynllun gweithredu ar gyfer 'Sylfaen ar gyfer Llwyddiant' a chaiff ei adolygu bob pum mlynedd. Mae'r Uwchgynllun yn nodi cyfleoedd buddsoddi a datblygu yn Ystrad Mynach fel rhan o'r Ganolfan Strategol ac mae'n ceisio adeiladu ar gryfderau presennol Ystrad Mynach i sicrhau bod yr ardal yn gwella ei rôl fel canolfan fusnes, cyflogaeth, gwasanaeth, manwerthu a chwaraeon.Yn unol â'r trefniadau llywodraethu cytunedig, bydd y Bwrdd Prosiect Adfywio yn blaenoriaethu prosiectau a chynigion i'w hystyried gan y Cabinet ac felly bydd y ddarpariaeth yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan y Cabinet. Dywedodd y Swyddogion y bydd yr holl sylwadau yn cael eu hystyried, yn dilyn cyfnod o ymgynghori, a bydd newidiadau yn cael eu gwneud i'r Uwchgynllun lle bo'n briodol, a bydd yr Uwchgynllun diwygiedig wedyn yn cael ei adrodd i'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo'n ffurfiol. Yn dilyn ymlaen o Fasn Caerffili ac Ystrad Mynach, mae Swyddogion hefyd yn datblygu cynlluniau ar gyfer ardaloedd Rhymni a Rhisga wrth symud ymlaen.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion cyflwyno am yr adroddiad cynhwysfawr a gofynwyd i hyn gael ei gyfleu i'r tîm sy'n ymwneud â datblygu'r Uwchgynllun. Nodwyd hefyd fod aelodau lleol wedi cyfrannu at y cynllun fel rhan o'r broses ymgynghori.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo Uwchgynllun Drafft Ystrad Mynach am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog fel sail ar gyfer ymarferiad ymgynghori cyhoeddus yn dechrau ar 28 Ionawr 2019 tan 8 Mawrth 2019.

**5. ARIANNU HYBLYG LLYWODRAETH CYMRU**

Mae'r adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar Brosiect Ariannu Hyblyg Llywodraeth Cymru a'r penderfyniad dilynol a wnaed gan Lywodraeth Cymru i weithredu dau grant integredig o 1 Ebrill 2019 'Grant Plant a Chymunedau a Grant Cymorth Tai'. Mae angen sefydlu strwythur llywodraethu i weinyddu a rheoli'r ddau grant integredig a sefydlu Grŵp Cydweithio Rhaglen newydd a chefnogi cydweithio gyda'r Grantiau Cymorth Tai.

Dywedwyd wrth y Cabinet bod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi peilota dull o gyfuno cyllid ar gyfer deg o raglenni grant a anelir at gefnogi pobl a chymunedau sy'n agored i niwed, gyda'r bwriad y bydd un Grant Atal a Chymorth Ymyrraeth Gynnar yn cael ei ddyrannu i'r awdurdod i

benderfynu yn lleol ar ddarpariaeth o 2019/20. Nod LlC yw cefnogi dull gydgysylltiedig, hirdymor, ataliol tuag at ddarparu ar gyfer pobl sy'n agored i niwed. Gweithredwyd y peilot llawn Ariannu Hyblygrwydd ac Ehangu Hyblygrwydd o Ebrill 2018 ac mae'n parhau. Nid oedd CBS Caerffili yn awdurdod peilot. Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff 4.12 yn yr adroddiad sy'n rhoi enghreifftiau o weithio ar y cyd a chydweithio eisoes ar waith yng Nghaerffili o fewn y grantiau sydd o fewn cwmpas ar gyfer ariannu hyblyg.

Ar 3 Hydref 2018, cadarnhaodd datganiad ysgrifenedig gan Alun Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a Rebecca Evans, y Gweinidog dros Dai ac Adfywio, gyfeiriad y Grant Atal a Chefnogi Ymyrraeth Gynnar yn y dyfodol dros weddill tymor y Cynulliad hwn. Nodwyd manylion y rhaglenni a gynhwyswyd yn Atodiad 1. Mae LlC wedi nodi na fydd lefel yr ariannu ar draws y rhaglenni yn newid yn ystod y weinyddiaeth bresennol ac ni fydd yn dioddef toriadau ariannol fel y nodwyd yn flaenorol yn 2017. Dywedodd Swyddogion y byddai angen adroddiad pellach os bydd y sefyllfa hon yn newid, cyn gynted ag y gwyddys lefel y toriadau. Derbyniwyd llythyr pellach gan Lywodraeth Cymru ar 15 Tachwedd 2018 yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Cyhoeddodd LlC y llinell amser yr wythnos hon i Awdurdodau Lleol ddarparu un cynllun cyflawni erbyn 8 Chwefror 2019 mewn perthynas ag ariannu grant. Yna bydd LlC yn darparu sylwadau erbyn diwedd mis Chwefror yn cadarnhau'r cyllid grant sydd ar gael. Nodwyd bod LlC angen cynllun cyffredinol gyda llofnod corfforaethol a bydd am wybod sut y bydd yr arian yn cael ei ddyrannu.

Cefnogodd y Cabinet yr adroddiad yn llawn ond mynegwyd eu pryderon ynghylch yr amserlen gyfyngedig a roddwyd i Swyddogion i ymateb i LC a theimlwyd fod angen cyfnod pontio hirach. Felly awgrymwyd bod Swyddogion yn cysylltu â LlC i archwilio hyblygrwydd ymestyn y terfyn amser.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD yn amodol ar argymhelliad ychwanegol i gynnwys *Swyddogion i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru (LlC) ynghylch yr amserlen fer a roddwyd i Swyddogion ymateb i'r dyraniad ariannu ac os oes hyblygrwydd i ymestyn y dyddiad cau, fel y gellir ystyried a rheoli'r ymateb mewn modd effeithiol*, ac am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog: -

(i) dyrennir cyllidebau 2019/20 i'r rhaglenni fel blynyddoedd blaenorol i alluogi amser i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod;

(ii) dylai cynllunio yn y dyfodol gynnwys gwerthuso effeithiolrwydd rhaglen, gan flaenoriaethu wrth gyflawni yn unol â blaenoriaethau corfforaethol;

(iii) sefydlu dau grŵp cydweithredol ar gyfer grantiau integredig newydd i gael eu cadeirio gan y Pennaeth Gwasanaethau Gwella Busnes Dros Dro;

(iv) darparu adroddiad pellach pan fydd swm yr arian yn hysbys a bod canllawiau ac amodau grant yn cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru;

**(v)** Swyddogion i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru (LlC) ynghylch yr amserlen fer a roddir i Swyddogion i ymateb i'r dyraniad cyllid ac os oes hyblygrwydd i ymestyn y dyddiad cau, er mwyn i'r ymateb gael ei ystyried a'i reoli mewn modd effeithiol.

**(vi)**

## 6. Y BROSES HUNANARFARNU A'I EFFAITH AR GYNLLUN GWELLA GWASANAETH Y GYFADRAN ADDYSG

Roedd yr adroddiad yn diweddaru'r Cabinet gyda'r broses hunanarfarnu a'i heffaith ar Gynllun Gwella Gwasanaeth y Gyfadran Addysg, a rhoddodd grynodeb o'r cryfderau allweddol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant a ddynodwyd o ganlyniad i'r broses hunanarfarnu.

Esboniodd swyddogion fod y broses hunanarfarnu yn rhan annatod o'r cylch gwella gwasanaeth cyffredinol. Mae'n hanfodol wrth sicrhau bod y gyfadran yn sicrhau gwelliannau parhaus sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at amcanion Cynllun Gwella Gwasanaeth a Chynllun Corfforaethol Awdurdod Lleol Caerffili. Dros y deuddeng mis diwethaf, mae nifer gynyddol o strategaethau wedi'u gweithredu i sicrhau bod y broses yn gadarn, gan gynyddu lefel yr her, a chan adlewyrchu newidiadau i fframwaith Arolygu Estyn a chynnwys ystod ehangach o randdeiliaid. Mae'r broses hunanarfarnu wedi nodi ystod o gryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwelliant (mae manylion amdanynt wedi'u nodi yn yr adroddiad).

Cyfeiriwyd y Cabinet at baragraff 4.1 yn yr adroddiad sy'n nodi ystod o ddata a Gwybodaeth arall a gesglir trwy'r broses hunanarfarnu. Mae'r adroddiad yn nodi'r blaenoriaethau a ddewiswyd a'r dystiolaeth wrth gefn. Mae'r strategaethau'n cynnwys cyfres o sesiynau hyfforddi ailsefydlu ar gyfer y Tîm Rheoli Addysg. Mae hyn wedi helpu nifer cynyddol o reolwyr a staff i wella eu dealltwriaeth o bwrpas hunanarfarniad a datblygu cysondeb mewn ymagwedd. Mae'r swyddogion yn nodi'r camau gweithredu cyfredol ar gyfer y broses hunanarfarnu sy'n cynnwys datblygu ymhellach rôl rhanddeiliaid yn y broses. Ar hyn o bryd, nid yw adborth rhanddeiliaid yn ymddangos ym mhob agwedd ar y ddogfen hunanarfarnu. Trwy gydol 2018, cafodd aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg am Oes y cyfle i gyfrannu at y broses hunanarfarnu trwy gyfarfodydd craffu rheolaidd. Mae'r adran yn atebol i'r Pwyllgor Craffu ac ystyriwyd yr adroddiad hwn yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2018, lle cytunodd yr Aelodau yn unfrydol i nodi ei gynnwys a chymeradwyo'r canfyddiadau cywir.

Aeth Swyddogion ati i grynhoi prif themâu'r broses hunanarfarnu a'r nodweddion da ar draws y Gyfadran Addysg. Mae'r rhain yn cynnwys bod perfformiad yn y cyfnod sylfaen yn dda, mae perfformiad cyffredinol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn dda ac mae Perfformiad Cyfnod Allweddol 3 yn parhau i wella. Yn ogystal, mae angen adeiladu a gwella lefelau presenoldeb a gweithio ar leihau gwaharddiadau. Rhan 2 o'r strategaeth yw datblygu'r Cynllun Gweithredu wrth symud ymlaen a bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu cyn bo hir, ac yna i'r Cabinet.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am y gwaith mawr a wnaethpwyd wrth ddarparu'r adroddiad a chroesawyd y ffaith bod hyn yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn caniatáu i'r adran fod yn wydn wrth symud ymlaen.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn yr adroddiad, i nodi ei gynnwys.

**7. BREXIT**

Bu'r adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar Brexit a'r goblygiadau posibl i CBS Caerffili cyn ei ystyried gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2019. Cyfeiriwyd y Cabinet at baragraffau 7.2 a 10.1.2 yn yr adroddiad ac mae'r ffigur cronfa wrth gefn heb ei ddyrannu o £20.8miliwn a ddyfynnwyd yn gamgymeriad teipyddol a dylai hyn fod yn £20.08miliwn. Mae'r adroddiad yn nodi manylion cefndir y broses Brexit a bydd y Cabinet yn ymwybodol bod y sefyllfa yn parhau i fod yn ansicr iawn ac yn ansefydlog, yn enwedig yn dilyn y bleidlais yn y Senedd ar 15 Ionawr 2019.

Dywedwyd wrth y Cabinet, er gwaethaf y lefel uchel o ansicrwydd hwn, ei fod yn bwysig bod y Cyngor yn cymryd camau i baratoi ar gyfer yr effeithiau posibl sy'n deillio o Brexit ac i sicrhau hefyd y caiff arian ei neilltuo i gwrdd ag unrhyw oblygiadau ariannol tymor byr i ganolig. Ar ddiwedd Tachwedd 2018 cyhoeddodd CLlLC Pecyn Cymorth Paratoi am Brexit yn nodi'r

camau ymarferol y dylai Awdurdodau Lleol eu cymryd i baratoi ar gyfer effeithiau posibl Brexit, beth bynnag fo canlyniad y trafodaethau parhaus. Mae CBS Caerffili wedi sefydlu Gweithgor Brexit mewnol a fydd yn canolbwyntio ar y cyngor ym Mhecyn Cymorth CLlLC er mwyn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i helpu i liniaru risgiau Brexit. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a nodir y risgiau allweddol a nodwyd yn yr adroddiad. Nododd y Cabinet nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a bydd y Gweithgor Brexit yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y misoedd nesaf i sicrhau bod yr holl effeithiau posibl yn cael eu hystyried a bod camau lliniaru priodol yn cael eu nodi lle bo modd.

Dywedodd swyddogion, oherwydd y lefel uchel o ansicrwydd a'r effeithiau negyddol tebygol, ei bod yn ddarbodus neilltuo arian i fodloni goblygiadau ariannol unigryw a allai godi. Mae'r adroddiad yn argymell y dylai Cronfa Wrth Gefn Wedi'i Chlustnodi o £1miliwn gael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu. Yn ogystal, rhoddir y pwerau dirprwyedig hynny i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr Dros Dro i gymeradwyo gwariant o'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar y cyd er mwyn sicrhau y gall Swyddogion ymateb i unrhyw faterion ariannol sy'n dod i'r amlwg yn brydlon.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad ac ystyriwyd y goblygiadau ar gyfer senarios bosib yn codi o Brexit. Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â pharagraff 10.1.3. (pwerau dirprwyedig a roddwyd i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr Dros Dro) a sut y bydd Aelodau etholedig a'r Cyhoedd yn gwybod sut y caiff unrhyw wariant ei ddyrannu. Eglurwyd y bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor ymateb yn gyflym i wariant brys a bydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor ôl-weithredol ac felly bydd unrhyw wariant yn agored ac yn dryloyw ac yn gyhoeddus. Yng ngoleuni'r trafodaethau, gofynnodd y Cabinet am ddau argymhelliad ychwanegol sef y dylid gwahodd Arweinwyr o'r Grwpiau Gwrthbleidiol i ymuno â'r Gweithgor Brexit fewnol a sefydlwyd yn ddiweddar, ac y bydd unrhyw wariant brys a awdurdodir o dan bwerau dirprwyedig yn cael ei adrodd yn ôl-weithredol i'r Pwyllgor priodol.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad ac am y gwaith a wnaed gan y Gweithgor Brexit.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD yn amodol ar welliant i baragraffau 7.2 a 10.1.2 y dylai'r ffigwr a ddyfynnir fod yn £20.08miliwn; a bod dau argymhelliad ychwanegol i gynnwys y ddau Arweinydd o'r Grwpiau Gwrthbleidiol i gael eu gwahodd i ymuno â'r Gweithgor Brexit mewnol a sefydlwyd yn ddiweddar, a bod unrhyw wariant brys a awdurdodir o dan bwerau dirprwyedig yn cael ei adrodd yn ôl-weithredol i'r Pwyllgor priodol, ac am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog: -

(i) i nodi cynnwys yr adroddiad;

(ii) cymeradwyo argymhelliad i'r Cyngor fod £1miliwn yn cael ei neilltuo mewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi fel cynllun wrth gefn i gwrdd ag unrhyw oblygiadau ariannol tymor byr i'r tymor canolig sy'n deillio o'r broses Brexit (wedi ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn heb ei ddyrannu £20.08miliwn a nodwyd yn yr adroddiad 'Diweddariad ar Gronfeydd Wrth Gefn' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 15 Ionawr 2019);

(iii) cymeradwyo argymhelliad i'r Cyngor y dylid rhoi pwerau dirprwyedig i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr Dros Dro i gymeradwyo gwariant ar y cyd o'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi yn ôl yr angen;

(iv) gwahodd y ddau Arweinydd o'r Grwpiau Gwrthbleidiol i ymuno â'r Gweithgor Brexit mewnol a sefydlwyd yn ddiweddar;

**(v)** bydd unrhyw wariant brys a awdurdodir o dan bwerau dirprwyedig yn cael ei

adrodd yn ôl-weithredol i'r Pwyllgor priodol.

## 8. DILEU DYLEDION DROS £20,000 - ÔL-DDYLEDION ARDRETHI BUSNES AR GYFER CWMNÏAU CYFYNGEDIG

Darparodd yr adroddiad hwn manylion i'r Cabinet am swm o ardrethi fusnes y mae'n ofynnol i'r Awdurdod ei ddileu fel dyled ddrwg. Ar 15 Medi 2009, cymeradwyodd y Cabinet weithdrefn ddileu diwygiedig am ddyledion sy'n faterol, lle bydd y ddyled unigol yn fwy na £20,000. Ceisir cymeradwyaeth i ddileu dau gyfradd annomestig genedlaethol, a elwir hefyd yn ardrethi fusnes, dyledion lle mae'r ddyled unigol yn fwy na £20,000 ym mhob achos.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn derbyn adroddiadau bob chwe mis ar arian sy'n ddyledus i'r Cyngor na ellir ei gasglu. Dilynir ardrethi busnes sydd heb eu talu drwy orchymyn atebolrwydd llys ynadon sy'n rhoi grym i'r Awdurdod i gyfarwyddo beilïaid. Esboniodd Swyddogion, oherwydd bod dyledwyr yn dianc, yn datgan eu hunain yn fethdalwyr drwy fethdaliad/diddymu neu achosion cyfreithiol eraill, rhoi'r gorau i fasnachu, marw heb ystâd, ac oherwydd dulliau cyfyngedig mae amgylchiadau anochel pan na ellir casglu dyledion. Ar ôl i'r holl ddulliau cyfreithiol ddod i ben, bydd penderfyniad yn cael ei wneud i ddileu'r dyledion. Nododd yr Aelodau fod yr Awdurdod yn casglu Ardrethi Busnes ar ran Llywodraeth Cymru, ac yna mae'n ailddosbarthu'r cyfanswm a gasglwyd gan yr 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ynghyd â'r Grant Cynnal Refeniw.

Nodwyd manylion yr achosion o ddyledion na ellir eu hadennill ym mharagraffau 4.4 a 4.5.1 i 4.5.3 yn yr adroddiad.

Mae'r Cabinet yn cefnogi'r argymhelliad yn yr adroddiad a phwysleisiwyd fod gan yr adran gyfradd ardderchog o gasglu dyledion.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD yn amodol ar ddiwygiad i'r argymhelliad gan nad oes gan yr Awdurdod unrhyw bwerau cyfreithiol pellach i adennill y dyledion sydd heb eu talu ac am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog: -

(i) dileu'r dyledion ar y sail eu bod yn anadferadwy, gan nad oes gan yr Awdurdod bwerau cyfreithiol pellach i adennill y dyledion sydd heb eu talu, manylir ym mharagraffau 4.4 a 4.5.1 i 4.5.3 yn gynwysedig..

Terfynwyd y cyfarfod am 11.16 a.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr, 2019.

_________________________
CADEIRYDD